**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1209
Ein cyf/Our ref JMSS/00641/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Government.Committee.Business@llyw.cymru

1 Tachwedd 2023

Annwyl Jack Sargeant AS

Diolch ichi am eich gohebiaeth ar 6 Hydref, ynglŷn â deiseb P-06-1209 ynghylch rhestr genedlaethol sy'n cynnwys pob gofalwr di-dâl. Hoffwn roi ddiweddariad ar fy llythyr blaenorol ar y pwnc hwn, dyddiedig 7 Medi. Fel y rhagwelwyd yn y llythyr hwn, cyflwynais y gwaith ymchwilio a'r costau a fyddai'n gysylltiedig â chreu rhestr genedlaethol i Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl ar 25 Medi.

Nodais y cyfyngiadau GDPR ar rannu data o restrau a gedwir gan asiantaethau trydydd sector a statudol, a'r cyfyngiadau a fyddai'n rhan annatod o gynllun a fyddai'n gofyn i ofalwyr di-dâl ymuno â mwy nag un rhestr. Gadewais y cyfarfod er mwyn i'r grŵp cynghori allu cynnal trafodaeth agored. Cefais wybod wedyn gan Alwyn Jones, y Cadeirydd, nad oedd y grŵp o'r farn y byddai creu cofrestr fel yr un a amlinellwyd o werth na budd sylweddol i ofalwyr di-dâl.

Mae'r deisebydd wedi codi cwestiynau ynghylch y gost o goladu manylion cyswllt i'r rheini sy'n cadw rhestr o ofalwyr di-dâl mewn awdurdodau lleol, byrddau iechyd, a sefydliadau gofalwyr. Mae hyn yn caniatáu inni rannu gwybodaeth Llywodraeth Cymru â phob gofalwr sydd ar y rhestrau a gedwir ar draws Cymru. Roedd y gallu hwn yn un o'r uchelgeisiau a oedd yn gysylltiedig â chadw un rhestr sengl. Cafodd y gwaith coladu ei wneud gan swyddogion heb unrhyw gostau ychwanegol.

Mae'r deisebydd wedi codi cwestiynau ynghylch parodrwydd rhai deiliaid rhestrau i ddosbarthu gwybodaeth Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw un sy'n gyfrifol am gadw rhestr nad fyddai'n fodlon gwneud hyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym wedi ymrwymo i adolygu sut yr ydym yn cyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau strategol ar gyfer gofalwyr di-dâl, gan greu gweithgor sy'n adrodd i Grŵp Cynghori'r Gweinidog. Mae hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith gofalwyr, ynghyd â'u gallu a'u parodrwydd i hunanddiffinio yn elfen bwysig iawn o'n strategaeth bresennol, sy'n cael ei gweithredu gan sefydliadau gofalwyr cenedlaethol.

Mae'r deisebydd yn sôn am gerdyn i ofalwyr ac mae'n credu y gallai cerdyn o'r fath fod yn sail ar gyfer cydweithio i greu rhestr genedlaethol. Bydd fy swyddogion yn ystyried hyn ochr yn ochr â'r cynlluniau eraill sy'n cael eu hystyried. Gallai'r cyfle i ofalwyr di-dâl gael cerdyn adnabod sy'n cydnabod y rôl bwysig y maent yn ei chwarae fod yn gyfle gwerthfawr. Mae fy swyddogion wrthi'n ymchwilio i'r cynlluniau hyn ar y cyd â'n partneriaid yn y trydydd sector. Mae materion y mae angen eu hystyried o ran y corff priodol ar gyfer hyrwyddo cynlluniau o'r fath, a allai gynnwys elfen fasnachol a'r angen i ddilysu statws gofalwyr di-dâl.

Mae hyn yn rhan o'n gwaith parhaus, a byddaf yn parhau i weithio'n agos gyda Grŵp Cynghori'r Gweinidog i sicrhau ein bod yn darparu'r cymorth mwyaf effeithiol a gwerthfawr ar gyfer y gofalwyr hyn.

Yn gywir

Julie Morgan

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services